


Bywgraffiadau siaradwyr Wythnos Gwaith Cymdeithasol 2025



Bywgraffiadau Wythnos Gwaith Cymdeithasol 2025

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 January 2025

Diweddariad olaf: 4 February 2025

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gweithwyr-cymdeithasol/wythnos-gwaith-cymdeithasol/bywgraffiadau-siaradwyr-wythnos-gwaith-cymdeithasol-2025> am y fersiwn diweddaraf.

Darllenwch y bywgraffiadau isod i wybod mwy am y siaradwyr sy'n arwain ein sesiynau yn ystod Wythnos Gwaith Cymdeithasol 2025.

Nia Edy

Cymhwysodd Nia fel gweithiwr cymdeithasol yn 2009 ac fel addysgwr ymarfer yn 2012. Cyn hynny, bu'n gweithio mewn awdurdodau lleol, gan oruchwylio hyfforddiant a chefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol, addysgwyr practis a gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso. Mae Nia yn gweithio yn y tîm sicrhau ansawdd addysg yng Ngofal Cymdeithasol Cymru, gan weithio gyda'r holl raglenni gwaith cymdeithasol rheoledig yng Nghymru. Mae hi hefyd yn asesu gweithwyr cymdeithasol rhyngwladol.

Mae Nia wedi gweithio mewn rolau amrywiol ar draws gwasanaethau plant, mewn timau cymunedol ac fel swyddog adolygu annibynnol. Mae Nia wrth ei bodd yn dysgu a llynedd fe gwblhaodd TAR. Mae hi'n edrych ymlaen at archwilio mwy o gyfleoedd datblygu yn y dyfodol.

Cerian Twinberrow

Mae Cerian yn swyddog ymgysylltu a datblygu gwaith cymdeithasol yng Ngofal Cymdeithasol Cymru. Mae ei rôl yn cynnwys hyrwyddo gwaith cymdeithasol fel proffesiwn a werthfawrogi.

Mae Cerian wedi gweithio ym maes gofal cymdeithasol ers dros 30 mlynedd, gan ganolbwyntio ar gefnogi oedolion. Cwblhaodd ei gradd meistr mewn gwaith cymdeithasol yn 2006 ac mae wedi gweithio yng Nghymru a Lloegr mewn gwasanaethau gwirfoddol a statudol i oedolion. Mae hi'n parhau i fod yn

weithiwr cymdeithasol cofrestredig.

Marian Parry Hughes

Mae Marian yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig, yn gweithio fel Pennaeth Gwasanaethau Plant a Chymorth i Deuluoedd Cyngor Gwynedd. Mae hi wedi gweithio yn y maes hwn ers 1988, gan gyflawni sawl rôl weithredol o fewn gwasanaethau plant.

Mae hi'n angerddol am hyrwyddo'r Gymraeg mewn gwaith cymdeithasol, ac mae ganddi ddiddordeb arbennig mewn diogelu, maethu a hyfforddi a datblygu'r gweithlu.

Mae Marian yn mwynhau treulio amser gyda'i hwyron a chanu mewn côr.

Samantha Stroud

Mae Sam yn falch ei bod hi wedi cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol yn ddiweddar yn 52 oed. Bu'n gynorthwydd gwaith cymdeithasol yn yr ysbyty am bron i 15 mlynedd ac mae hi bellach yn weithiwr cymdeithasol i Gyngor Caerdydd, yn gweithio yn y gymuned.

Mae Sam yn teimlo'n freintiedig i gefnogi unigolion a theuluoedd drwy gyfnodau anodd. Mae hi wrth ei bodd â'i chartref a'i theulu, sy'n gysur iddi, ac nawr mae hi wedi cymwysu mae hi'n cymryd gwersi sglefrio iâ i lenwi'r bwlch a gymerwyd yn flaenorol gydag oriau astudio.

Heather Fitzpatrick

Cymhwysodd Heather gyda gradd meistr mewn gwaith cymdeithasol yn 2011, ar ôl gweithio ym maes gofal cymdeithasol i oedolion yn flaenorol. Dechreuodd ei gyrfa fel gweithiwr asiantaeth, gan weithio gyda phobl ag anableddau dysgu, cyn gweithio gydag oedolion yn Essex.

Mae Heather yn addysgwr ymarfer cymwysedig ac yn ymarferydd iechyd meddwl cymeradwy (AMHP). Roedd ganddi rolau gwaith cymdeithasol uwch mewn ysbytai, diogelu a gwasanaethau oedolion hŷn, cyn symud i Gymru.

Ers symud i Gymru mae wedi gweithio fel AMHP, rheolwr gwasanaethau gwaith cymdeithasol ysbytai ac fel arweinydd gwasanaeth, cyn dychwelyd i waith cymdeithasol rheng flaen yn y Tîm Anabledd Cymhleth yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae Heather yn teimlo'n ffodus bod ganddi swydd y mae'n ei charu a'i mwynhau. Mae'n teimlo'n freintiedig i fod yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig.

Esther Chapman

Cymhwysodd Esther fel gweithiwr cymdeithasol ym mis Tachwedd 2023, yn dilyn newid gyrfa yn ystod y pandemig. Mae Esther yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag anableddau fel gweithiwr cymdeithasol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin.

Mae ganddi ddiddordeb arbenigol mewn anhwylder yn y sbectrwm awtistig/anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd a defnyddio sylweddau.

Mae Esther newydd droi'n 50 ond mae'n teimlo fel ei bod hi'n dal i ofyn yn gyson "pam a sut".

Gwenan Prysor

Gwenan yw cyfarwyddwr y rhaglen Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Bangor.

Ar ôl cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol yn y 1990au, mae profiad ymarfer Gwenan wedi bod yn bennaf gyda phlant a theuluoedd, ac mae'n cynnwys diogelu. Daeth fwyfwy yn rhan o hyfforddiant gwaith cymdeithasol ac yna ymunodd â Phrifysgol Bangor.

Diddordebau proffesiynol Gwenan yw'r Gymraeg mewn gwaith cymdeithasol ac effaith profiadau plentyndod cynnar ar les oedolion. Mae hi'n parhau i fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig.

Esyllt Crozier

Mae Esyllt yn weithiwr cymdeithasol cymwysedig. Bu'n gweithio ym maes gwasanaethau plant am nifer o flynyddoedd, fel gweithiwr cymdeithasol ac fel rheolwr. Ymunodd â Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2019 ac mae'n rheolwr gwella a datblygu sy'n arwain ar waith cymdeithasol.

Mae Esyllt yn angerddol am wella amodau ar gyfer y gweithlu gwaith cymdeithasol, a diogelu.

Yr Athro Donald Forrester

Yr Athro Forrester yw Cyfarwyddwr Canolfan CASCADE ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar ddeall beth yw arfer da mewn

gwaith cymdeithasol a sut y gallwn gefnogi gweithwyr cymdeithasol i ddarparu arfer gorau.

Mae wedi ymchwilio'n helaeth i'r defnydd o Gyfweld Ysgogol mewn gwaith plant a theulu ac mae wedi ysgrifennu llyfrau *Motivational Interviewing for working with children and families: A practical guide for early intervention and child protection (2022)* ac *The Enlightened Social Worker - An Introduction to Rights-Focused Practice (2024)*.

Ar hyn o bryd mae'n archwilio'r potensial sydd gan ddeallusrwydd artiffisial (AI), ar gyfer gwella ymarfer gwaith cymdeithasol ac mae'n ddirprwy gyfarwyddwr Canolfan Gofal Cymdeithasol a Dysgu AI (SCALE) newydd.

Stuart Allen

Mae Stuart yn athro yn Yr Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg, Prifysgol Caerdydd. Mae ganddo ddi-ddordeb mewn rhyngweithio cyfrifiadurol dynol, deallusrwydd artiffisial (AI), a gwyddor data.

Stuart yw cyfarwyddwr y Ganolfan Gofal Cymdeithasol a Dysgu AI yng Nghymru, menter ymchwil ryngddisgyblaethol newydd gyda'r nod o gymhwyso technegau AI datblygedig i fynd i'r afael â heriau wrth ddarparu gofal cymdeithasol.

Aimee Twinberrow

Aimee yw'r arweinydd arloesi digidol yng Ngofal Cymdeithasol Cymru. Mae ganddi dros 14 mlynedd o brofiad ym maes gofal cymdeithasol. Dechreuodd

Aimee ei gyrfa fel gweithiwr cymorth i oedolion ag anableddau dysgu. Cwblhaodd ei gradd meistr mewn gwaith cymdeithasol yn 2013 a bu'n gweithio yn ne Cymru fel gweithiwr cymdeithasol mewn gwasanaethau oedolion. Mae hi'n parhau i fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig.

Treuliodd Aimee bedair blynedd yn rheoli gwasanaethau rheng flaen yn y gymuned, gan gynnwys gofal cartref a thechnoleg gynorthwyol, ac mae ganddi dystysgrif NVQ lefel 5 Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae Aimee yn angerddol am hyrwyddo arloesedd digidol ym maes gofal cymdeithasol.

Glenda George

Glenda yw arweinydd y gweithlu yng Nghymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru. Mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad ym maes datblygu sefydliadol a rheoli adnoddau dynol ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Glenda yw Cyfarwyddwr Pobl a Phrofiad o fewn Practice Solutions a hi yw partner strategol y gweithlu yn uned fusnes ADSS Cymru.

Mae gan Glenda brofiad o gefnogi cyfarwyddwyr ac uwch reolwyr i ddatblygu a gweithredu rhaglenni newid trawsnewidiol. Mae ei gwaith yn cynnwys asesu parodrwydd gwasanaethau cymdeithasol i weithredu Copilot i ofal cymdeithasol oedolion a threialu technoleg AI mewn cartrefi gofal preswyl yn rhanbarth Gwent.

Nicki Harrison

Mae Nicki yn rheolwr prosiect yng Nghymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac mae ganddi fwy na 35 mlynedd o brofiad yn y sector cyhoeddus. Mae hi'n swyddog iechyd yr amgylchedd cymwysedig ac yn ymarferydd Prince 2 ac yn Rheoli Rhaglenni Llwyddiannus gyda gradd meistr mewn gweinyddiaeth cyhoeddus.

Sefydlodd a rheolodd Ganolfan Ragoriaeth Cyngor Caerdydd ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau a hi oedd rheolwr rhaglen Rhaglen Newid Trawsnewidiol Caerdydd.

Mae hi wedi gweithio ar amrywiaeth o brosiectau i wella'r canlyniadau i bobl sy'n cael mynediad at ofal cymdeithasol. Mae hi wedi arwain timau i gyflawni prosiectau ar gyfer ADSS Cymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â nodau a champau gweithredu a nodir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol.

Ar hyn o bryd mae'n rheoli dau brosiect sy'n edrych ar y defnydd o AI mewn gofal cymdeithasol i oedolion.

Nick Andrews

Mae Nick Andrews yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig ac yn swyddog datblygu ymchwil ac ymarfer ym Mhrifysgol Abertawe, lle mae'n cydlynu'r rhaglen Datblygu Ymarfer Cyfoethogi Tystiolaeth (DEEP). Mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar ddull cydgynhyrchu sy'n defnyddio mathau amrywiol o dystiolaeth mewn dysgu a datblygu trwy ddefnyddio dulliau stori a deialog.

Ar ôl treulio blynyddoedd lawer yn ymarfer ac yn cynllunio mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol, mae'n gallu gwneud cysylltiadau rhwng ymchwil, polisi ac ymarfer ac mae wedi datblygu rhwydwaith helaeth ledled Cymru a'r DU. Mae'n

angerddol am gefnogi symudiad o ymarfer sy'n cael ei yrru gan y broses tuag at ymarfer sy'n canolbwyntio ar berthynas.

Peter Blundell

Mae Peter yn uwch ddarlithydd ar yr MA mewn Ymarfer Cwnsela a Seicotherapi ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl. Mae'n therapydd cymwysedig ymarferol, gweithiwr cymdeithasol, ymchwilydd a goruchwyliwr Doethuriaeth.

Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cwmpasu ffiniau proffesiynol, atgyrchedd yn ymarferol, dymameg pŵer, ac arfer gwrth-ormesol. Mae ganddo ddiddordeb mewn cydweithio ac mae wedi helpu i sefydlu llawer o gymunedau ymarfer.

Mae ganddo bresenoldeb gweithredol ar-lein, gan gymryd rhan mewn trafodaethau ar gwnsela, seicotherapi, a gwaith cymdeithasol. Mae gan Peter ymarfer cwnsela preifat bach ac mae'n cynnig gwasanaeth goruchwylio allanol i weithwyr proffesiynol.

Mae Peter yn byw yn Lerpwl gyda'i bartner. Mae ganddyn nhw ddau gi achub. Mae ganddo berthynas ar/oddi ar redeg ac yn ddiweddar mae wedi ymddiddori mewn ôl-ddyneiddiaeth.

Jay Goulding

Mae Jay yn swyddog ymgysylltu a datblygu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, lle mae'n helpu sefydliadau i fabwysiadu ac ymgorffori arferion sy'n seiliedig ar gryfderau, gan gynnwys y rhaglen gyfathrebu gydweithredol.

Ers cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol yn 2003 a hyfforddiant diweddarach mewn therapi teulu systemig, mae Jay wedi dal swyddi fel gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol a rheolwr perfformiad a datblygu ar gyfer timau amlddisgyblaethol, gan gynnwys tîm integredig cymorth i deuluoedd.

Yn ei rôl bresennol, mae Jay yn hyrwyddo gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd ymarfer tosturiol a chydweithredol, gan sicrhau bod gan ddinasyddion "lais, dewis a rheolaeth." Trwy hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar gryfderau ac arweinyddiaeth dosturiol, mae'n cefnogi sefydliadau i feithrin diwylliannau cadarnhaol sy'n gwella lles y gweithlu ac yn gwella canlyniadau i bawb.

Danica Darley

Mae Danica yn gydymaith ymchwil ym Mhrifysgol Sheffield. Mae hi wedi gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn gofal a'r rhai sy'n gwrthdaro â'r gyfraith ers 15 mlynedd.

Mae ganddi radd BA (Anrh) mewn Cymdeithaseg a Throsedddeg ac MA mewn Dulliau Ymchwil Cymdeithasol, y ddau o Brifysgol Sheffield. Cydgynhyrchodd ei hastudiaeth PhD gyda phobl ifanc sydd â phrofiad yn y system cyfiawnder troseddol a gofal cymdeithasol plant. Mae hi hefyd yn archwilio profiadau plant mewn gofal sy'n ymwneud â gangiau troseddol yn Lloegr.

Mae Danica yn ddarlithydd mewn Arweinyddiaeth Geidwadol Gymhwysol ym Mhrifysgol y Drindod Leeds. Mae'n aelod o Rwydwaith Ymchwil Cyfranogol Prifysgol Sheffield, Rhwydwaith Cyswllt Academaidd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac mae'n aelod cyswllt o'r Gynghrair Cyfiawnder Ieuenctid. Mae hi hefyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol Rhaglenni yn y Experience for Justice Collective

Mae gwaith Danica yn bwysig iddi. Mae ei diddordeb mewn carchardai yn deillio o fod wedi treulio dedfryd o garchar pan oedd yn iau, ac arweiniodd ei rolau proffesiynol yn cefnogi plant a phobl ifanc at ddiddordeb mewn ymarfer perthynol, cydgynhyrchu a chyfranogi.

Mae Danica yn fam i ddwy ferch wych a chorfilgi. Mae'n briod ac yn byw ychydig y tu allan i Sheffield. Mae hi wrth ei bodd yn teithio, coginio, pobi, dawnsio, nofio a darllen.

Siobhan Maclean

Siobhan has been a social worker for 33 years and became a practice educator in 1995. Siobhan has worked independently for several years. Her work is varied and includes training, devising practice learning resources and consultancy work. Siobhan still very much enjoys working as a practice educator and currently works with a few students a year in an off-site capacity.

From 2004 to 2012 Siobhan was the secretary of the International Federation of Social Workers (IFSW). She co-directed an IFSW project on 'new social workers', which explored the experiences of those in the final year of study and through the first five years in practice.

Siobhan has written widely about social work theory and critical reflection. She makes the knowledge base accessible to busy practitioners. She set up Kirwin Maclean Associates as an independent publishing organisation based on the values and ethics of social work.

Siobhan lives in Northern Ireland and is a practice teacher. She's a fellow of the Royal Society for the encouragement of Arts and a visiting professor at the University of Chester.

Dr Thomas Kitchen MBBCh (Hon), FRCA, PgCert (Clin Leadership)

Mae Thomas yn anesthetydd ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac yn uwch ddarlithydd clinigol ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae ganddo ddiddordeb clinigol mewn anesthesia ar gyfer llawfeddygaeth yr ên a'r wyneb a dadebru trawma mawr.

Mae Thomas yn angerddol am ffactorau dynol, ymchwil mewn cyfathrebu a sut mae ein cymhwysedd emosiynol yn ymwneud â pherfformiad personol a thîm, y claf a'n hunanofal.

Mae'n darlithio ar y pwnc yn rhyngwladol, ac mae hefyd yn gweithio fel cydgyfarwyddwr Canopi, gwasanaeth cymorth iechyd meddwl hunanatgyfeirio ar gyfer holl staff y GIG a Gofal Cymdeithasol sy'n gweithio yng Nghymru.

Fiona McDonald

Mae Fiona yn ymgynghorydd lles annibynnol yn y gweithle. Fel addysgwr ymarfer mae hi wedi cefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol sy'n niwroamrywiol.

Cafodd Fiona ddiagnosis hwyr o ddyslecsia pan oedd hi'n astudio ar gyfer gradd meistr mewn gwaith cymdeithasol. Roedd hi'n cydnabod yr effaith ehangach y mae dyslecsia yn ei chael a daeth yn angerddol dros helpu eraill sy'n gweithio i helpu proffesiynau sy'n niwroamrywiol.

Dyfarwyd Mentor Arbenigol y Flwyddyn iddi hefyd gan Beacon Support am ei gwaith gyda myfyrwyr ag anghenion ychwanegol.

Florence Smith

Mae Florence yn byw gyda dyslecsia, dyspracsia ac mae hi'n weithiwr cymdeithasol AuDHD ac yn addysgwr ymarfer. Mae hi'n defnyddio ei phrofiad bywyd a phroffesiynol i lywio ei gwaith.

Mae Florence yn cynnal y wefan a'r blog 'The Neurodivergent Social Worker', lle mae'n ysgrifennu at weithwyr cymdeithasol niwroamrywiol ac at gyflogwyr gwaith cymdeithasol, gan eirioli dros newidiadau diwylliannol a system i hwyluso niwro-gynhwysiant o fewn gwaith cymdeithasol.

Mae Florence hefyd yn gyfarwyddwr Neuro Inclusive Solutions Ltd sy'n darparu hyfforddiant ac ymgynghoriaeth i sefydliadau gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol i'w helpu i ddod yn niwro-gynhwysol.